

Rhif: WG-16076



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Corff Adnoddau Naturiol Cymru (ymgynghoriad ychwanegol)

Dyddiad cyhoeddi: 13 Awst 2012  
Ymatebion erbyn: 5 Hydref 2012



## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y trefniadau ar gyfer sefydlu Corff Adnodau Naturiol Cymru.

## Sut i ymateb

A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen ymateb a'i dychwelyd atom erbyn 5 Hydref 2012, drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein, e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/?lang=cy](http://www.cymru.gov.uk/?lang=cy)

## Manylion cysylltu

Am fwy o wybodaeth:

Carrie Moss  
Tîm Rhaglen Cymru Fyw  
Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: [SEB@wales.gsi.gov.uk](mailto:SEB@wales.gsi.gov.uk)  
ffôn: 02920 825527

## Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair

Ar 9 Chwefror 2012, cyhoeddais ymgynghoriad ar y trefniadau a gynigir ar gyfer sefydlu a chyfarwyddo corff newydd i reoli adnoddau naturiol Cymru; corff a fyddai'n cyfuno swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau datganoledig Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o ddeuddeg wythnos, gan ddod i ben ar 2 Mai.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a gynhaliwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 22 Mai, nodais fod yr ymgynghoriad wedi rhoi ffynhonnell adborth gyfoethog a gwerthfawr i ni a fydd o gymorth wrth i ni lywio gweledigaeth a gwerthoedd y corff newydd, a ffyrdd y corff o weithio. Nodais hefyd fy mwriad i symud ymlaen â'r gwaith o greu'r corff a throsglwyddo swyddogaethau iddo.

Daeth y corff newydd i fodolaeth yn ffurfiol ar 19 Gorffennaf ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol bleidleisio o blaid Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r gorchymyn yn sicrhau bod ganddo'r holl bwerau angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith paratoi cyn i swyddogaethau sylweddol y cyrff etifeddol gael eu trosglwyddo iddo drwy ail orchymyn.

Wrth i'r gwaith o baratoi'r ail orchymyn fynd rhagddo, rwyf wedi parhau i ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan geisio sicrhau bod y swyddogaethau a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd yn cwmpasu'n iawn ei rôl o ddiogelu'r amgylchedd naturiol, y dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol a mynediad i gefn gwlad a'r arfordir.

Rwyf am sicrhau bod gan y corff newydd ddyletswyddau a phwerau clir sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y rhain a swyddogaethau hanfodol eraill a gyflawnir gan y tri chorff sy'n bodoli ar hyn o bryd. Felly, rwyf wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad ychwanegol. Y nod yw ategu'r prif ymgynghoriad, gan geisio cael barn ar agweddau penodol ar y gwaith o weithredu, ystyried dyletswyddau cyffredinol y corff newydd a cheisio cael sylwadau ychwanegol ar drefniadau cyfreithiol a gweithio arfaethedig y corff.

Rwy'n edrych ymlaen at eich ymatebion i'r cwestiynau pwysig hyn.

## Crynodeb

Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am y trefniadau ar gyfer sefydlu'r Corff Adnoddau Naturiol newydd i Gymru. Mae'r ymgynghoriad yn ategu'r ymgynghoriad blaenorol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012, a oedd yn gofyn am sylwadau ar y cynnig i sefydlu'r corff newydd. Cynhelir yr ymgynghoriad dan adran 18 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011.

Mae dwy brif ran i'r ymgynghoriad:

- Dyletswyddau cyffredinol y corff newydd.
- Gwybodaeth ychwanegol am drefniadau cyfreithiol a gweithio'r corff.

Mae'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar y dyletswyddau sy'n ymwneud â harddwch naturiol, cadwraeth, mynediad, diogelu'r dirwedd hanesyddol a choedwigaeth.

Mae'r rhain yn cynrychioli meysydd lle mae'n rhaid dwyn ynghyd nifer o ddyletswyddau a'u cysoni â'i gilydd, yn hytrach na'u trosglwyddo yn unig. Mae'r darpariaethau arfaethedig sy'n cwmpasu'r materion hyn wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Mae ail ran yr ymgynghoriad yn ystyried nifer o feysydd manwl lle y gofynnwyd am ragor o wybodaeth, neu lle'r oedd y gwaith dadansoddi'n dangos y byddai'n fuddiol rhannu'r bwriadau a gofyn am farn rhanddeiliaid. Mae'r agweddau penodol yn cynnwys:

- Materion trawsffiniol – egwyddorion cyffredinol.
- Rheoleiddio a gorfodi gan gynnwys y Gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) ac arolygu, ymchwilio, gorfodi ac erlyn, gan gynnwys sancsiynau sifil a phwerau ymchwilio.
- Monitro a samplu safleoedd ac effeithiau trawsffiniol.
- Cynlluniau ac adroddiadau statudol.
- Ymateb i argyfyngau gan gynnwys trosglwyddo pwerau dan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH).
- Cynlluniau masnachu a chyfrifoldeb cynhyrchwyr.
- Trefniadau trosiannol e.e. mesurau i drosglwyddo erlyniadau sydd ar y gweill, penderfyniadau a thrwyddedau cyfredol i'r corff.

## 1. Cefndir

### Datblygu cynigion a'r ymgynghoriad blaenorol

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn pwysu a mesur y dewisiadau o ran dyfodol rheoleiddio a rheoli amgylcheddol yng Nghymru.

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru Fyw' a fu'n ymgymghori ar bolisiau ar gyfer rheoli'r Amgylchedd yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys y dewis o gyfuno swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau datganoledig Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth. Er mwyn hwyluso'r gwaith darllen, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyfeirio at ddau grŵp olaf y swyddogaethau fel Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth fydd y cyrff etifeddol (unwaith y bydd y corff newydd wedi'i sefydlu'n llawn).

Law yn llaw â'r ymgynghoriad 'Cymru Fyw', comisiynodd Gweinidogion adolygiad cychwynnol o'r dewisiadau o ran cyflawni. Roedd yr adolygiad hwn yn cymharu amrywiaeth eang o ddewisiadau ac argymhellodd yn ystod mis Ionawr 2011 mai creu corff newydd yn cynnwys swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Chefn Gwlad Cymru oedd y ffordd orau o fwrw iddi mae'n debyg.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru barhau â'r gwaith pellach o greu corff cyflawni sengl. Gofynnwyd am adolygiad manylach (yr achos busnes) a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar y dewis o gyfuno swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Chefn Gwlad Cymru. Cwblhawyd yr achos busnes a'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2011. Roedd yn cadarnhau mai'r dewis o gyfuno oedd y ffordd orau o fwrw iddi, o safbwynt cyflawni a gwerth am arian. Cafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu.

Ym mis Rhagfyr 2011, cafodd y Bil Cyrff Cyhoeddus Gydsyniad Brenhinol. Roedd yn cynnwys darpariaeth glir a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i greu corff newydd a throsglwyddo swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru iddo.

Ar 9 Chwefror 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y trefniadau a gynigir ar gyfer sefydlu a chyfarwyddo corff newydd i reoli adnoddau naturiol Cymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Derbyniwyd cyfanswm o 308 o ymatebion a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 15 Mai 2012.

Mae copi o'r ddogfen ymgynghori, crynodeb o'r ymatebion ac ymatebion yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singlebody/?skip=1&lang=cy>

## **Penderfyniad y Gweinidog**

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, ar 22 Mai cyhoeddodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ei fod yn bwriadu bwrw iddi â'r gwaith o greu'r corff newydd, yn unol â chynigion yr ymgynghoriad. Cyhoeddodd hefyd y byddai'r prif waith cyfreithiol i greu'r corff yn mynd rhagddo drwy ddau orchymyn a wnaed gyda phwerau o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Disgrifir y broses hon ymhellach isod.

## 2. Yr agwedd gyfreithiol a'r amserlen

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf o dan y teitl 'Adnoddau Naturiol Cymru' a'r Papur Gwyrdd o dan y teitl 'Cynnal Cymru Fyw' yn cynnig dull dau gam o greu'r corff newydd:

- Creu corff a oedd yn cynnwys cyfnod paratoi, ac yna trosglwyddo swyddogaethau i'r corff hwnnw gyda chyn lleied o newidiadau â phosibl gan ddefnyddio'r pwerau a ddarparwyd gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011.
- Newidiadau deddfwriaethol mwy radical, lle y bo angen, drwy Fil yr Amgylchedd arfaethedig.

Bydd y dull esblygol hwn yn golygu y gall y corff newydd gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth y bydd yn gyfrifol am ei gweithredu. Cafodd y dull hwn ei groesawu'n eang yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf.

### Cam 1 – creu'r corff

Mae'r corff yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth, ar ffurf gorchymyn, er mwyn creu corff newydd a throsglwyddo swyddogaethau o'r tri phrif gorff i'r corff hwnnw, gydag addasiadau angenrheidiol. Bydd dau orchymyn.

### Y gorchymyn cyntaf

Y gorchymyn cyntaf grëodd y corff newydd a'i sefydlu mewn ffordd a fyddai'n sicrhau y gall gyflawni'r gwaith paratoi cyn iddo gael yr ystod lawn o swyddogaethau priodol. Mae'r gwaith paratoi hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y corff newydd weithredu'n llawn o'r diwrnod cyntaf y bydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sy'n cael eu trosglwyddo iddo.

Gosodwyd fersiwn ddrafft o'r gorchymyn cyntaf hwn, sef Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 30 Mai. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cynulliad ar 18 Gorffennaf 2012, daeth i rym ar 19 Gorffennaf 2012. Mae'r gorchymyn yn darparu'r corff â'r teitl gwaith *Corff Adnoddau Naturiol Cymru*. Mae ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol drwy'r ddolen ganlynol.

<http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-legislation/bus-fourth-legislation-sub.htm>

## Yr ail orchymyn

Bydd ail orchymyn, sy'n amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a chydysniad Gweinidogion Llywodraeth y DU, yn darparu'r corff newydd â'r holl swyddogaethau sy'n angenrheidiol iddo gyflawni'r gwaith a fwriadwyd. Bydd y gorchymyn hwn hefyd yn diwygio darpariaethau'r gorchymyn cyntaf yn ôl yr angen.

Mae'r pwerau yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i drosglwyddo swyddogaethau presennol i'r corff newydd gyda rhai addasiadau, ond nid ydynt yn eu galluogi i wneud newidiadau deddfwriaethol eang. Yn y bôn, bydd yr ail orchymyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn gwneud newidiadau a ystyrir yn angenrheidiol o ganlyniad i'r gwaith o drosglwyddo swyddogaethau neu sy'n gysylltiedig â throsglwyddo o'r fath neu'n ategol iddo.

Mae dros 300 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth wedi'u dadansoddi sydd wedi arwain at nodi nifer fawr o ddiwygiadau angenrheidiol. Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn syml – newid cyfeiriadau at un neu fwy o'r cyrff presennol er mwyn cyfeirio at y corff newydd. Er enghraifft, mae sawl darn o ddeddfwriaeth sy'n enwi un corff neu fwy fel ymgynghoreion statudol.

Mae'r ymarfer hwn yn golygu llawer iawn o waith. Er bod y gwaith cychwynnol o ddadansoddi polisiau wedi'i gwblhau, mae'r gwaith dadansoddi cyfreithiol a'r gwaith o ddrafftio diwygiadau yn mynd rhagddo.

Fel rhan o'r broses hon, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu:

- Cydweithio â Defra a'r tri chorff presennol yn ystod yr haf ar y gwaith cychwynnol o ddrafftio'r ail orchymyn.
- Rhannu fersiwn ddrafft yr ail orchymyn â Phwyllgorau perthnasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Medi. Bydd hyn yn rhoi cyfle cychwynnol i ddiwygiadau gael eu cynnig a'u hystyried cyn gosod y gorchymyn.
- Ystyried yr ymatebion a geir i'r ymgynghoriad hwn a chyhoeddi crynodeb erbyn diwedd mis Hydref 2012.
- Gosod ail fersiwn ddrafft y gorchymyn ym mis Tachwedd 2012.
- Ystyried cynigion ar gyfer diwygiadau a gynigir gan y Pwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad ac, os oes angen, gosod gorchymyn drafft diwygiedig ym mis Chwefror 2013 ar gyfer y drafodaeth derfynol ym mis Mawrth 2013 cyn i'r gorchymyn ddod i rym ar 1 Ebrill 2013.



## **Yr ail gam**

Ar 12 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Prif Weinidog raglen ddeddfwriaethol bum mlynedd Llywodraeth Cymru. Roedd yn cynnwys y cynnig i gyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn ystod y cyfnod o bum mlynedd. Bydd Bil yr Amgylchedd yn sicrhau dull mwy integredig o reoli'r amgylchedd, a bydd hefyd yn helpu i wella manau gwyrdd trefol. Bydd y Bil hefyd yn rhoi cyfle i roi deddfwriaeth amgylcheddol glir ar waith yng Nghymru a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd hefyd yn ein galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd eto i'w datrys sy'n ymwneud â'r fframwaith rheoleiddio y mae'n annhebygol y bydd y gorchmynion i sefydlu'r corff newydd yn mynd i'r afael â nhw.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, 'Cynnal Cymru Fyw', rydym am lunio Papur Gwyn cyn cyflwyno'r Bil.

Mae'n debygol y bydd Papurau Gwyn ar y Biliau Datblygu Cynaliadwy a Chynllunio arfaethedig hefyd.

O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r Biliau hyn yn gyfle i gyflwyno newidiadau yn raddol, gam wrth gam.

### **3. Pam rydym yn ceisio eich barn?**

Roedd y prif ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012, yn nodi'r cynllun a'r dull cyffredinol. Er i'r dull cyffredinol gael cefnogaeth eang, gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o fanylion ar agweddau penodol ar y cynigion.

I gyd-fynd â'r broses ymgynghori, mae llawer iawn o waith wedi'i wneud ar ddadansoddi'r newidiadau cyfreithiol sy'n ofynnol. Cynhaliwyd trafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn datblygu egwyddorion gweithredol ymhellach. Nid yw hyn wedi arwain at unrhyw newid cyfeiriad sylweddol, ond mae wedi darparu mwy o fanylder a fydd yn helpu i egluro'r cynigion.

Bwriad yr ymgynghoriad hwn felly yw ategu'r ymgynghoriad blaenorol, gan ofyn barn ar agweddau penodol ar y gwaith o weithredu. Mae iddo ddwy brif ran:

- Dyletswyddau cyffredinol y corff newydd.
- Gwybodaeth ychwanegol am drefniadau cyfreithiol a gweithio'r corff.

Bydd yr ymgynghoriad yn para am 8 wythnos, a hynny oherwydd ei fod yn ategu'r prif ymgynghoriad a gynhaliwyd dros gyfnod o 12 wythnos rhwng mis Chwefror a mis Mai 2012. Mae'n rhaid cael barn rhanddeiliaid ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn cyn mynd ati i lunio fersiwn derfynol o'r gorchymyn drafft, sydd i'w osod ym mis Tachwedd 2012.

# Rhan 1. Dyletswyddau cyffredinol

## 4. Dyletswyddau

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf ar 'Adnoddau Naturiol Cymru' yn nodi:

*'Yr egwyddor gyffredinol sy'n sail i'n cynigion yw mai ein bwriad yn ystod y cam cychwynnol, oni nodir fel arall, fyddai trosglwyddo swyddogaethau perthnasol y tri phrif gorff i'r corff newydd. Wrth wneud y gorchymyn, ein nod fyddai rhesymoli swyddogaethau dyblyg, gan fanteisio ar y cyfle i symleiddio neu ddiweddarau'r ddeddfwriaeth.'*

Fel y nodwyd yn adran 3, mae'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i drosglwyddo swyddogaethau deddfwriaethol presennol i'r corff newydd gydag addasiadau, ond nid oes modd gwneud newidiadau deddfwriaethol ehangach.

Dadansoddwyd y ddeddfwriaeth a nodwyd tri phrif faes lle y gallai fod yn ofynnol rhesymoli/symleiddio swyddogaethau dyblyg y cynigion. Maent fel a ganlyn: (i) diben y corff (sef testun yr ymgynghoriad cyntaf, ac sydd wedi'i gynnwys yn y gorchymyn cyntaf), (ii) dyletswyddau trawsbynciol fel y rhai sy'n berthnasol i gadwraeth, hamdden a diogelu'r dirwedd, a (iii) pwerau cyffredinol, fel pwerau erlyn, a phwerau i godi tâl.

### 4.1 Y diben a dyletswyddau trawsbynciol

Roedd yr ymgynghoriad 'Adnoddau Naturiol Cymru' yn gofyn barn ar nod y corff newydd. Derbyniwyd mewnbwn sylweddol ar y mater hwn, ac fe'i hystyriwyd wrth ddatblygu diben y corff.

Y diben sylfaenol, fel y nodwyd yn y gorchymyn cyntaf, yw y dylai'r corff ddehongli ei ddyletswyddau a defnyddio ei bwerau er budd pobl, amgylchedd ac economi Cymru. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf, bydd yn rhaid i'r corff wneud penderfyniadau sy'n ystyried yr holl fuddiannau hyn, gan geisio sicrhau'r canlyniadau gorau.

Dan y ddeddfwriaeth bresennol (adran 4 Deddf yr Amgylchedd 1995) mae Gweinidogion Cymru eisoes yn darparu canllawiau statudol i Asiantaeth yr Amgylchedd ar y gwaith o weithredu ei dyletswydd statudol yng Nghymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Mae Gweinidogion hefyd yn cyhoeddi llythyrau cylch gwaith i Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn unol â'r cynigion yn ymgynghoriad cyntaf 'Adnoddau Naturiol Cymru', mae pŵer tebyg i gyflwyno canllawiau wedi'i gynnwys yn erthygl 5 y gorchymyn cyntaf.

Caiff y darpariaethau hyn eu hailadrodd isod ym mlwch 1, gan eu bod yn darparu cyd-destun ar gyfer y materion yr ymgynghorir arnynt.

## Blwch 1. Dvfvniad o'r aorchwmvn cvntaf

### Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 Erthygl 4 – Diben y Corff

- (1) Diben y Corff yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru-
  - (a) yn cael eu cynnal yn gynaliadwy;
  - (b) yn cael eu gwella yn gynaliadwy; ac
  - (c) yn cael eu defnyddio yn gynaliadwy.
- (2) Yn yr erthygl hon--
  - (a) ystyr "yn gynaliadwy" ("*sustainably*") yw —
    - (i) gyda golwg ar wneud lles, a
    - (ii) mewn modd sydd wedi ei ddylunio i wneud lles, i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol;
  - (b) mae "amgylchedd" ("*environment*") yn cynnwys, heb gyfyngiad, organeddau byw ac ecosystemau.
- (3) Lle bynnag y bo'r Corff yn arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â pharth Cymru (fel y diffinnir "*Welsh zone*" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1)), neu unrhyw swyddogaeth sy'n effeithio ar y parth hwnnw, mae'r ddau gyfeiriad at "Cymru" ym mharagraff (1) i'w dehongli fel eu bod yn cynnwys cyfeiriadau at barth Cymru.

### Erthygl 5 - Canllawiau o ran diben y Corff

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r Corff o ran y modd y dylai arfer ei swyddogaethau er mwyn rhoi effaith i'w ddiben.
- (2) Wrth lunio unrhyw ganllawiau o dan baragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i gyfrifoldebau ac adnoddau'r Corff.
- (3) Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r Corff roi sylw i'r canllawiau a roddir o dan yr erthygl hon.
- (4) Cyn rhoi canllawiau i'r Corff o dan yr erthygl hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Corff ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau a roddir o dan yr erthygl hon cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi'r canllawiau.
- (6) Mae'r pŵer i roi canllawiau o dan yr erthygl hon yn cynnwys pŵer i'w hamrywio neu i'w dirymu.

## 4.1.1 Dyletswyddau harddwch naturiol a gwarchod natur

### Y Sefyllfa Bresennol

Mewn perthynas â harddwch naturiol, mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ddyletswydd i arfer ei swyddogaethau cefn gwlad at ddibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol Cymru a harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad Cymru mewn ardaloedd a ddynodir yn Barciau Cenedlaethol a'r ardaloedd a ddynodir yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a manau eraill. Mae ei swyddogaethau gwarchod natur hefyd yn cynnwys gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig a meithrin dealltwriaeth o warchod natur.<sup>1</sup>

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ddyletswydd i warchod a gwella ymhellach harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig o ddiddordeb arbennig wrth greu neu ystyried unrhyw gynigion mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau ar wahân i reoli llygredd ac i roi sylw i fuddioldeb gwarchod a gwella harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig o ddiddordeb arbennig wrth greu neu ystyried unrhyw gynigion mewn perthynas â swyddogaethau rheoli llygredd. At hynny, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ddyletswydd, i'r fath raddau fel yr ystyria sy'n gyffredinol yn fuddiol, i hyrwyddo'r gwaith o warchod a gwella harddwch naturiol ac amwynder dyfroedd mewndirol ac arfordirol a thir sy'n gysylltiedig â dyfroedd o'r fath.<sup>2</sup>

Bydd y Comisiynwyr Coedwigaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau, yn ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng datblygu coedwigaeth, rheoli coedwigoedd a chynhyrchu a chyflenwi pren a gwarchod a gwella harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig o ddiddordeb arbennig.<sup>3</sup>

### Y bwriad

Nod dwyn ynghyd y dyletswyddau gwarchod a harddwch naturiol yw diogelu, ac o bosibl cryfhau'r gwaith a wneir gan y corff i hyrwyddo a diogelu nodweddion cadwraeth a harddwch naturiol, ond gan wneud hynny mewn ffordd nad yw'n gosod beichiau rheoleiddio newydd ar ddiwydiant nac ar goedwigaeth weithredol.

### Y cynnig

Y cynnig cyffredinol, felly, yw rhoi dyletswydd i'r corff, o fewn cyd-destun ei ddiben cyffredinol, er mwyn hyrwyddo cadwraeth a harddwch naturiol ar draws holl swyddogaethau'r corff newydd.

O ran ei swyddogaethau rheoli llygredd, bydd hyn yn gyfyngedig, fel ag y mae ar hyn o bryd, i ddyletswydd sy'n rhoi sylw i fuddioldeb gwarchod a gwella harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig wrth greu neu ystyried unrhyw gynigion mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny.

<sup>1</sup> A130 a 131 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

<sup>2</sup> A7(1)(a) a (b) ac a6(1) Deddf yr Amgylchedd 1995

<sup>3</sup> A1(3A) Deddf Coedwigaeth 1967

O ran y dyletswyddau cadwraeth, y bwriad yw diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol, yn hytrach na chreu dyletswydd hollol newydd. Mae dyletswyddau Cyngor Cefn Gwlad Cymru dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a'r rhai a roddir ar Asiantaeth yr Amgylchedd yn adran 7(1)(a) Deddf yr Amgylchedd 1995, yn debyg iawn.

Mae dyletswydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ofyniad i gyflawni ei swyddogaethau cefn gwlad er mwyn gwarchod a gwella harddwch naturiol ac mae dyletswydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ddyletswydd i arfer ei phwerau rheoli llygredd er mwyn gwarchod a gwella ymhellach harddwch naturiol.

Y cynnig felly yw diwygio'r ddeddfwriaeth fel bod dyletswydd adran 7(1)(a) yn berthnasol i weithgareddau'r holl gorff, ac eithrio'r swyddogaethau rheoli llygredd a choedwigaeth.

Ar gyfer rheoli llygredd, byddai'r ddyletswydd bresennol 'i roi sylw' yn parhau'n berthnasol.

O ran coedwigaeth, mae'n rhaid i'r Comisiynwyr Coedwigaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddfau Coedwigaeth 1967 i 1979, ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng datblygu coedwigaeth, rheoli coedwigoedd a chynhyrchu a chyflenwi pren a gwarchod a gwella harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig o ddiddordeb arbennig. Bellach mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei hadnabod fel 'dyletswydd gydbwyso' y Comisiwn Coedwigaeth ac mae wedi darparu'n rhannol y sail ddeddfwriaethol ar gyfer datblygu polisiau rheoli coedwigoedd cynaliadwy yng Nghymru a'r DU.

Byddai'r dewis rydym yn ei ffafrio yn sicrhau y byddai'r corff yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd gydbwyso a geir yn adran 1(3A) Deddf 1967. Dull arall o fynd ati fyddai sicrhau bod y ddyletswydd gydbwyso yn adran 1(3A) Deddf 1967 yn peidio â bod yn berthnasol, ond byddai'r ddyletswydd i roi sylw i fuddioldeb gwarchod natur yn adran 7(1)(b) Deddf 1995 yn berthnasol. Byddai Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau i'r corff ar sut y dylai geisio cydbwyso buddiannau'r bobl, yr amgylchedd a'r economi wrth arfer ei swyddogaethau coedwigaeth.

Wrth wneud y newidiadau hyn byddem yn dileu'r cyfeiriad at 'diddordeb arbennig' mewn perthynas â Chymru yn adran 7(1) er mwyn cyd-fynd yn well â dyletswyddau presennol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a diddymu dyletswydd gyfatebol Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn adran 130 (2) (a) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Byddai dyletswyddau eraill, fel y ddyletswydd yn adran 6(1) Deddf yr Amgylchedd 1995, yn parhau gydag addasiadau er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r corff newydd mewn perthynas â'i waith ar gyfer Cymru.

Mae dyletswydd bresennol Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cynnwys gofyniad i roi sylw i fuddiannau cymdeithasol ac economaidd ardaloedd gwledig. Mae Adran 7(1)(c) Deddf 1995 yn cynnwys gofyniad tebyg i roi sylw i effeithiau'r cynigion ar les economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol mewn ardaloedd gwledig.

Byddai effaith gyffredinol y newidiadau hyn yn golygu y byddai adran 7(1) yn berthnasol i Weinidogion Cymru a'r corff newydd fel a ganlyn. Mae geiriad posibl yr ail orchymyn wedi'i gynnwys ym mlwch 2 isod. (Nid dyma fyddai'r union eiriad, a fyddai'n nodi'r newidiadau i'r darpariaethau presennol yn unig, ac yn dangos i Weinidogion y DU ac Asiantaeth yr Amgylchedd bod y geiriad presennol yn parhau i gael ei ddefnyddio.)

## **Blwch 2. Geiriad posibl yr ail orchymyn**

(a) Byddai Gweinidogion a'r corff newydd dan ddyletswydd, wrth greu neu ystyried unrhyw gynigion sy'n berthnasol i unrhyw un o swyddogaethau'r corff ar wahân i'w swyddogaethau rheoli llygredd neu ei swyddogaethau dan Ddeddfau Coedwigaeth 1967 i 1979, i arfer unrhyw bwerau mewn perthynas â'r cynigion er mwyn gwarchod neu wella ymhellach harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig.

Byddai'r ddyletswydd hon yn berthnasol cyn belled â'i bod yn gyson—

- (i) â dibenion unrhyw ddeddfiad sy'n berthnasol i swyddogaethau'r corff,
- (ii) yn achos Gweinidogion, gyda'r nod o sicrhau datblygu cynaliadwy,
- (iii) yn achos y corff, gydag unrhyw ganllawiau dan erthygl 5 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (canllawiau mewn perthynas â diben y corff),
- (iv) yn achos Gweinidogion, gyda'u dyletswyddau dan adran 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

(b) Byddai Gweinidogion a'r corff newydd dan ddyletswydd, wrth greu neu ystyried unrhyw gynigion sy'n berthnasol i swyddogaethau rheoli llygredd y corff, i roi sylw i fuddioldeb gwarchod a gwella harddwch naturiol a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig.

(c) Byddai Gweinidogion a'r corff newydd dan ddyletswydd, wrth greu neu ystyried unrhyw gynig sy'n berthnasol i unrhyw un o swyddogaethau'r corff—

- (i) i roi sylw i fuddioldeb diogelu a gwarchod adeiladau, safleoedd a gwrthrychau o ddiddordeb archeolegol, pensaernïol, peirianyddol neu hanesyddol;
- (ii) i ystyried unrhyw effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar harddwch neu amwynder unrhyw ardal wledig neu drefol neu ar unrhyw fflora, ffawna, nodweddion, adeiladau, safleoedd neu wrthrychau; ac
- (iii) i roi sylw i unrhyw effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar les economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol mewn ardaloedd gwledig.

**Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno â'n cynnig o ran dyletswyddau'r corff mewn perthynas â gwarchod a harddwch naturiol? (Ydw, I raddau helaeth, Dim o gwbl).**

**Os nad ydych, sut byddech chi'n ei newid?**

## 4.1.2 Dyletswyddau mynediad cyhoeddus a hamdden

### Y sefyllfa bresennol

Wrth gyflawni ei swyddogaethau cefn gwlad, mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ddyletswydd i annog y gwaith o ddarparu neu wella cyfleusterau ar gyfer mwynhau cefn gwlad, a hyrwyddo cyfleoedd o ran hamdden awyr agored ac astudio byd natur.<sup>4</sup>

Ym 1968, ehangwyd pwerau'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn cynnwys pwerau i ddarparu cyfleusterau twristiaeth, hamdden a chwaraeon fel llefydd, meysydd pebyll a charafannau, llefydd ar gyfer prydu a lluniaeth, llefydd picnic, canolfannau gwybodaeth ac arddangos, siopau a chyfleusterau cyhoeddus ac ati. Rhoddwyd pŵer hefyd iddynt godi tâl am y cyfleusterau hyn.<sup>5</sup>

Ar hyn o bryd, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd ddyletswydd (sy'n berthnasol hefyd i Weinidogion Cymru), wrth greu neu ystyried unrhyw gynigion sy'n berthnasol i'w swyddogaethau, i roi sylw i fuddioldeb gwarchod unrhyw ryddid mynediad ar gyfer y cyhoedd i ardaloedd sy'n cynnwys coetiroedd, mynyddoedd, rhosydd, gweunydd, twynder, clogwyni neu flaenau traethau a llefydd eraill o harddwch naturiol ac ystyried unrhyw effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar unrhyw ryddid mynediad o'r fath neu ar y graddau y mae cyfleuster o'r fath ar gael<sup>6</sup>. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd ddyletswydd i gymryd y cyfryw gamau fel sy'n rhesymol ymarferol, ac sy'n cyd-fynd â'i dibenion o safbwynt ei swyddogaethau, er mwyn sicrhau, cyhyd â bod gan Asiantaeth yr Amgylchedd hawliau i ddefnyddio dŵr neu dir sy'n gysylltiedig â dŵr, bod yr hawliau hynny yn cael eu harfer er mwyn sicrhau bod y dŵr neu'r tir ar gael at ddibenion hamdden a'i fod ar gael yn y ffordd orau.<sup>7</sup>

### Y cynnig

Rydym yn cynnig rhoi dyletswyddau a phwerau mynediad cyhoeddus a hamdden i'r corff newydd, wedi'u gosod o fewn cyd-destun ei ddiben cyffredinol, fel y gall fynd ati'n ddiwyd i hyrwyddo mynediad a hamdden trwy ei weithgarwch gweithredol, gan roi sylw i fuddioldeb cadw rhyddid mynediad, yn ei swyddogaethau rheoleiddio.

Byddai hyn yn cynnwys pwerau i ddarparu cyfleusterau, codi tâl amdanynt lle bo hynny'n briodol, yn ogystal â'r pŵer i ymrwymo i gyd-fentrau. Byddai effaith y cynigion yn *ehangu dyletswyddau mynediad a hamdden i dir coedwig* ac yn ehangu cwmpas daearyddol y *pwerau* o gymharu â'r trefniadau cyfredol.

Wrth reoli coedwigaeth, bydd y corff newydd yn parhau i ystyried anghenion y diwydiant cynhyrchu pren a mynediad cyhoeddus fel y gwna'r Comisiwn Coedwigaeth ar hyn o bryd. Yn yr un modd, mae effaith y ddyletswydd wedi'i chyfyngu mewn perthynas ag arfer swyddogaethau rheoli llygredd er mwyn cyd-fynd ag effaith bresennol Deddf yr Amgylchedd 1995.

<sup>4</sup> Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a130 (2)(b)

<sup>5</sup> Deddf Cefn Gwlad 1968 a23.

<sup>6</sup> Deddf yr Amgylchedd 1995 a7(2)

<sup>7</sup> Deddf yr Amgylchedd 1995 a7(4)



Gweler geiriad posibl yr ail orchymyn ym mlwch 3 isod:

### **Blwch 3. Geiriad posibl yr ail orchymyn**

**1.** Gall Corff Adnoddau Naturiol Cymru (y Corff) gymryd y camau y mae'n eu hystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo a hwyluso mynediad cyhoeddus i gefn gwlad a mannau agored yng Nghymru a'r mwynhad ohonynt.

**2.—(1)** Mae'n rhaid i'r Corff arfer ei swyddogaethau er mwyn annog y gwaith o ddarparu a gwella cyfleusterau ar gyfer —

- (a) mwynhau cefn gwlad a mannau agored;
- (b) hamdden awyr agored; ac
- (c) astudio, deall a mwynhau'r amgylchedd naturiol.

**(2)** Mewn perthynas â'r ddyletswydd ym mharagraff (1) —

(a) nid yw'n berthnasol i bwerau rheoli llygredd y Corff, o fewn ystyr adran 5 Deddf yr Amgylchedd 1995;

(b) mae ond yn berthnasol i'r graddau y mae'n gyson â'r canlynol —

- (i) unrhyw ddyletswydd arall a osodwyd ar y Corff gan ddeddfiad,
- (ii) dibenion y ddeddfiad sy'n rhoi'r swyddogaeth,
- (iii) canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru dan erthygl 5 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

**(3)** Mae Adran 7(2) i (5) Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gwneud darpariaeth bellach o ran dyletswyddau'r Corff mewn perthynas â mynediad cyhoeddus i lefydd o harddwch naturiol, cyfleusterau ar gyfer ymweld â safleoedd o ddiddordeb, a sicrhau bod dyfroedd a thir cysylltiedig ar gael ar gyfer hamdden.

**3.—(1)** Gall y Corff ddarparu, neu drefnu neu gynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu cyfleusterau a gwmpesir gan baragraff (2) ar unrhyw dir sy'n eiddo iddo, y mae'n ei ddefnyddio neu'n ei reoli neu unrhyw dir y mae Gweinidogion Cymru yn pennu ei fod ar gael i'w ddefnyddio.

**(2)** Mae'r cyfleusterau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) fel a ganlyn —

(a) cyfleusterau ar gyfer —

- (i) twristiaeth a mwynhau cefn gwlad a mannau agored;
- (ii) hamdden a chwaraeon;
- (iii) astudio, deall a mwynhau'r amgylchedd naturiol.

(b) unrhyw gyfarpar, cyfleusterau neu weithiau sy'n ategol i'r cyfleusterau a gwmpesir gan is-baragraff (a).

**(3)** Mae'r cyfleusterau a gwmpesir gan baragraff (2) yn cynnwys, heb gyfyngiad —

- (a) llety ar gyfer ymwelwyr;
  - (b) meysydd pebyll a charafannau;
  - (c) llefydd ar gyfer prydau a lluniaeth;
  - (d) llefydd picnic, llefydd ar gyfer mwynhau golygfeydd, llefydd parcio, llwybrau ar gyfer astudio natur a llwybrau troed;
  - (e) canolfannau gwybodaeth ac arddangos;
  - (f) siopau sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r cyfleusterau a nodwyd ym mharagraffau (a) i (e); a
  - (g) cyfleusterau cyhoeddus.
- (4) Yn yr erthygl hon, mae "darparu" yn cynnwys rheoli, cynnal a chadw a gwella.
4. Nid oes unrhyw beth yn erthyglau 2 a 3 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Corff ddarparu cyfleusterau am ddim.

**Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno â'r cynigion mewn perthynas â dyletswyddau mynediad cyhoeddus a hamdden? (Ydw, I raddau helaeth, Dim o gwbl).**

**Os nad ydych, sut byddech chi'n eu newid?**

#### 4.1.3 Dyletswyddau coedwigaeth

**Nid** yw'r prif ddyletswyddau coedwigaeth sy'n ymwneud â thyfu coed a'r gwaith o hyrwyddo'r gwaith o dyfu coed ar gyfer pren yn cael eu dyblygu'n uniongyrchol mewn deddfwriaethau ar gyfer y cyrff eraill.

Fodd bynnag, mae elfen gadwraeth y 'ddyletswydd gydbwyso' yn adran 1(3A) Deddf Coedwigaeth 1967 a'r dyletswyddau gwarchod natur a ddisgrifir yn adran 4.1.1. uchod yn ogystal â diben statudol y corff newydd sydd wedi'i gynnwys yn y gorchymyn cyntaf yn gorgyffwrdd yn sylweddol.

Mae rhai sydd â buddiannau ym maes coedwigaeth wedi mynegi pryder ynglŷn ag a fydd gan y corff newydd ddyletswyddau a phwerau tebyg i'r Comisiwn Coedwigaeth. Yn benodol, mae busnesau wedi mynegi pryderon am gynllunio a darparu yn y dyfodol er mwyn cyflenwi.

Am y rhesymau hyn, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi eglurhad pellach ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn cynnig deddfu ar gyfer y dyletswyddau coedwigaeth lefel uchel.

#### **Y sefyllfa bresennol**

Mae gan y Comisiynwyr Coedwigaeth ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo buddiannau coedwigaeth, datblygu coedwigaeth a chynhyrchu a chyflenwi pren a chynhyrchion coedwig eraill. Fel rhan o'r ddyletswydd gyffredinol hon, mae'r

Comisiynwyr yn gyfrifol yn benodol am sefydlu a chynnal cronfeydd digonol o goed sy'n tyfu.

Mae gan y Comisiynwyr bwerau eang (Adran 3, Deddf Coedwigaeth 1967) i reoli tir y mae Gweinidogion yn pennu ei fod ar gael iddynt ei ddefnyddio, ac i gyflawni eu dyletswydd gyffredinol a'u swyddogaethau ehangach dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn nodi'n benodol y gall y Comisiynwyr blannu neu ddefnyddio, at ddibenion arfer eu swyddogaethau dan y Ddeddf hon, unrhyw dir y mae Gweinidogion yn pennu ei fod ar gael iddynt ei ddefnyddio.

Mae'r pŵer hwn hefyd yn sicrhau y gellir rhoi cymorth neu gyngor mewn perthynas â phlannu neu reoli'n gyffredinol unrhyw goedwigoedd neu fforestydd i unrhyw berchennog heb gyfyngiad. Y pŵer hwn, law yn llaw â'r ddyletswydd gyffredinol, yw'r sail i waith cynghori a chymell y Comisiwn Coedwigaeth.

Y Comisiynwyr Coedwigaeth hefyd yw'r awdurdod cymwys o ran diogelu coed a phren coedwigoedd rhag ymosodiad gan blâu dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967. Yn ogystal â llunio gorchmynion cyfreithiol i gefnogi'r rôl hon, mae Comisiynwyr Coedwigaeth hefyd wedi darparu amrywiaeth o ymatebion gweithredol er mwyn rhoi'r gorchmynion hyn ar waith, yn ogystal â rhoi cefnogaeth mwy cyffredinol i'r rôl hon.

## **Y cynnig**

Y cynnig yw sicrhau bod y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo buddiannau coedwigaeth yn cael ei throsglwyddo i'r corff newydd. Bydd pwerau adran 3 Deddf Coedwigaeth 1967 ar gyfer rheoli ystad goed Gweinidogion Cymru hefyd yn cael eu throsglwyddo i'r corff newydd. Mae'r cynnig yn cynnwys yn benodol ddyletswydd i hyrwyddo'r coetiroedd a geir yng Nghymru yn unol â chanllawiau gan Weinidogion, yn ogystal â chefnogi diwydiannau coedwigaeth drwy reoli coedwigoedd a chynaeafu cynhyrchion pren.

Mae'r holl bwerau cyffredinol hyn sy'n ymwneud â choedwigaeth yn bwerau hanfodol y dylai'r corff newydd feddu arnynt a'r bwriad yw addasu Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r corff newydd. Mae dau ddewis ar gyfer y 'ddyletswydd gydbwyso' y cyfeirir ati uchod - un ai ei throsglwyddo neu ei chynnwys yn nyletswyddau gwarchod natur y corff.

Bydd rôl yr awdurdod cymwys o ddiogelu coed a phren coedwigoedd rhag ymosodiad gan blâu dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 yn cael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru hefyd. Bydd gan y corff newydd bwerau penodol (ond nid unigryw) i weithredu gorchmynion cyfreithiol a wneir gan yr awdurdod cymwys o ran diogelu coed a phren coedwigoedd rhag ymosodiad gan blâu dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967.

**Cwestiwn 3. A ydych yn cytuno â'r cynnig hyn am ddyletswyddau coedwigaeth lefel uchel? (Ydw, I raddau helaeth, Dim o gwbl).**

**Os nad ydych, sut byddech chi'n eu newid?**

### **4.1.4 Prif ddyletswyddau eraill**

Fel y nodir uchod, roedd ymgynghoriad 'Adnoddau Naturiol Cymru' yn nodi'n glir:

*'ein bwriad yn ystod y cam cychwynnol, oni nodir fel arall, fyddai trosglwyddo swyddogaethau perthnasol y tri phrif gorff i'r corff newydd'.*

Roedd Adran 5 a Thablau 1-3 y ddogfen honno yn nodi'r **prif** feysydd swyddogaethol (dyletswyddau a phwerau) a fydd hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r corff.

Disgrifir rhai o'r dyletswyddau mwy sylweddol yn Atodiad 1, (serch hynny nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn). Yn yr achosion hyn, y bwriad yn syml yw diwygio'r ddeddfwriaeth sydd ar waith ar hyn o bryd yn ôl yr angen er mwyn trosglwyddo'r ddyletswydd i'r corff newydd. Nid yw'r rhain yn cynnwys y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn yr adrannau cynharach.

## **Rhan 2 – Gwybodaeth ychwanegol am drefniadau cyfreithiol**

Mae'r ail ran yn ystyried nifer o feysydd manwl lle gofynnwyd am farn bellach, neu lle'r oedd dadansoddiadau'n dangos y byddai o fudd rhannu bwriadau. Mae'r agweddau penodol yn cynnwys:

- Materion trawsffiniol – egwyddorion cyffredinol.
- Rheoleiddio a gorfodi gan gynnwys y Gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) ac arolygu, ymchwilio, gorfodi ac erlyn, gan gynnwys sancsiynau sifil a phwerau ymchwilio.
- Monitro a samplu safleoedd ac effeithiau trawsffiniol.
- Cynlluniau ac adroddiadau statudol.
- Ymateb i argyfyngau gan gynnwys trosglwyddo pwerau dan Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH).
- Cynlluniau masnachu a chyfrifoldeb cynhyrchwyr.
- Trefniadau trosiannol e.e. mesurau i drosglwyddo erlyniadau sydd ar y gweill, a phenderfyniadau a thrwyddedau cyfredol i'r corff.

## 5. Materion trawsffiniol – egwyddorion cyffredinol

Mae dau brif faes gwaith lle ceir materion trawsffiniol: darparu gwasanaethau ar y cyd a threfniadau gweithredol.

Mae materion gweithredol yn ymwneud yn bennaf â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, a sut bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer wedi iddynt gael eu trosglwyddo i'r corff newydd mewn perthynas â Chymru. Er enghraifft, o ran rheoli llifogydd, efallai y bydd yn angenrheidiol i'r corff sengl weithio yng Nghymru er lles pobl Lloegr ac i'r gwrthwyneb. Mae'r gwaith sydd angen ei gyflawni ar y cyd ar draws y ffin yn cynnwys monitro glawiad, llif afonydd, radar tywydd, mesurau llanw a mesuriadau eraill. Bydd angen parhau i gynnal a rheoli strwythurau gweithredol, ac o dan rai amgylchiadau, efallai y bydd angen cyflawni gwaith adeiladu ar un ochr o'r ffin o hyd, er mwyn diogelu'r ochr arall. Bydd angen i'r corff sengl hefyd barhau â'r gwaith presennol a gyflawnir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gyda Natural England ar y tir, a chyda Natural England a JNCC yn y môr.

Ar hyn o bryd, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yn darparu'n ganolog amrywiaeth o wasanaethau, fel TGCh ac ymchwil i goedwigoedd, ynghyd â nifer o wasanaethau proffesiynol a thechnegol ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Bydd rhai o'r gwasanaethau hyn yn parhau i gael eu darparu gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth fel y maent ar hyn o bryd – fel trefniant hirdymor mewn rhai achosion a thros y cyfnod trosiannol mewn achosion eraill.

Ar gyfer materion bob dydd, mae strwythurau mewnol Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth eisoes yn cyd-fynd â'r ffin wleidyddol. Mae yna drefniadau a gweithdrefnau gweithio ar waith rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a rhanbarthau eraill Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir. Mae yna drefniadau tebyg ar waith ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth.

Er mwyn datrys y materion ehangach yn adeiladol, ein bwriad yw gosod dyletswydd ar Asiantaeth yr Amgylchedd a'r corff newydd i ystyried effeithiau trawsffiniol wrth wneud penderfyniadau gweithredol a rheoleiddio. Rydym hefyd yn bwriadu gosod dyletswydd ar y corff newydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd i gydweithredu a chydgysylltu gweithgarwch ar faterion trawsffiniol. Bydd disgwyl i'r corff newydd hefyd ddefnyddio mecanweithiau priodol (Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, er enghraifft) er mwyn ei alluogi i ddod i gytundeb â chyrff eraill ar faterion gweithredol trawsffiniol fel rheoli iechyd planhigion. At hynny, bydd gofyniad i'r corff newydd a chyrff presennol gytuno ar amgylchiadau lle byddant yn ymgynghori â'i gilydd ar weithgarwch a allai gael effaith drawsffiniol.

Y bwriad yw sicrhau bod yna bwerau sy'n galluogi'r Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd i rannu data gyda'r corff newydd ac fel arall, er mwyn helpu ei gilydd i arfer eu swyddogaethau.

Law yn llaw â'r pwerau a'r dyletswyddau hyn, mae adrannau 26-29 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn darparu pwerau cyffredinol i'r corff newydd, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth fel y gallant ymrwymo i gytundebau i ddarparu gwasanaethau i'w gilydd, a lle y bo'n briodol, bydd modd i'r corff newydd

ddirprwyo swyddogaethau i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth. Efallai y bydd rhai amgylchiadau hefyd lle byddai'r corff newydd yn darparu gwasanaeth i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Mae'r pwerau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion ac rydym yn gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatblygu trefniadau gweithio ymarferol.

Fodd bynnag, os yw'r cyrff yn anghytuno ynglŷn â'r ffordd ymlaen mewn perthynas ag unrhyw fater yn y dyfodol, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn gallu cyfarwyddo pob corff mewn perthynas â'r materion trawsffiniol hyn. Er enghraifft, cydgyfarwyddyd ar gynllun a gyhoeddwyd i roi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar waith. Gweler adran 8.1.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gwneud pob math o waith trawsffiniol. Mae hyn yn cynnwys rheoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, safleoedd Ramsar, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Llwybrau Cenedlaethol trawsffiniol yn ogystal â gweithgareddau eraill sy'n golygu cydweithio drwy JNCC. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn parhau.

**Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'r cynigion cyffredinol am drefniadau trawsffiniol? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 6. Rheoleiddio a gorfodi

Roedd yr ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru' yn mynd i'r afael â'r prif egwyddorion a fyddai'n sail i drefniadau rheoleiddio. Yn arbennig, nododd y ddogfen ymgynghori fwriad eglur i wneud y canlynol:

- Byddai Llywodraeth Cymru'n edrych ar symleiddio prosesau rheoleiddio lle bo'n briodol gan gynnal safonau amgylcheddol trwy ddileu ffiniau rhwng sefydliadau a datganoli'r broses o wneud penderfyniadau ac ad-drefnu prosesau.
- Bydd gan y corff drefniadau gweinyddu ar wahân ar gyfer rheoleiddio a gweithrediadau. Mewn achosion lle mae gofyn iddo ganiatáu neu drwyddedu<sup>8</sup> ei weithgareddau gweithredol ei hun, byddai yna drefniant ar wahân tebyg ar gyfer darparu cyngor ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).
- Byddai trefniadau'n cael eu cyflwyno i sicrhau penderfyniadau a chyngor tryloyw pan fyddai'r corff yn rheoleiddio ei swyddogaethau ei hun neu'n darparu cyngor statudol i'w swyddogaethau penderfynu ei hun.
- Byddai trwyddedau trawsffiniol cyfredol fel trwyddedau offer symudol a thrwyddedau pysgota â gwialen yn parhau fel bod trwyddedau'n ddilys yng Nghymru a Lloegr. Y diben yw lleihau unrhyw effaith ychwanegol ar fusnesau a gweithredwyr.
- Mewn rhai achosion, rhagwelir y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i reoleiddio safleoedd am resymau yn ymwneud â chost-ffeithiolrwydd a / neu wydnwch, er enghraifft rheoli safleoedd niwclear.

Cafodd yr egwyddorion hyn gefnogaeth eang yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf. Fodd bynnag, mae nifer o ymatebwyr wedi gofyn am ragor o fanylion, yn arbennig mewn perthynas ag ymdrin â materion trawsffiniol a materion fel codi tâl.

Mae'r adrannau nesaf yn rhoi rhagor o wybodaeth am y materion hyn.

### 6.1 Pwy fydd yn gyfrifol am reoleiddio?

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau a reoleiddir yn cael eu gwneud ar safle neu leoliad. Yr egwyddor gyffredinol yw y bydd pob agwedd ar reoleiddio yn dilyn daearyddiaeth y safle. Mewn geiriau eraill, bydd safleoedd Cymru'n cael eu rheoleiddio gan y corff newydd, a safleoedd Lloegr yn cael eu rheoleiddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r Comisiwn Coedwigaeth. Bydd hyn yn cynnwys pob agwedd ar reoleiddio, yn cynnwys gweithgareddau fel derbyn ceisiadau, penderfynu ar drwyddedau, arolygu rheoleiddiol, erlyn, sancsiynau eraill a chyngor.

Mae safleoedd trawsffiniol gwirioneddol a ganiateir (h.y. lle mae'r safle ei hun o boptu'r ffin) yn brin. Fodd bynnag, lle mae safleoedd o'r fath yn bodoli bydd rhaid mynd i'r afael â phwy sy'n gyfrifol am reoleiddio'r safle (neu'r strwythur). Mae'r cynigion yn y cyd-destun hwn yn dibynnu ar y swyddogaeth dan sylw ac yn cael eu trafod o dan yr adrannau perthnasol isod.

<sup>8</sup> At ddiben yr ymgynghoriad hwn, mae 'trwydded' yn derm cyffredinol sy'n cynnwys trwydded, caniatâd, cydsyniad, cofrestrriad ac eithriad.



## 6.2 Cyngori a rheoleiddio eraill – rôl yr ymgynghorai

Mae'r cyrff cyfredol yn ymgynghoreion statudol o dan ddeddfwriaethau amrywiol. Er enghraifft, mae'r cyrff yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio a rheoleiddwyr. Bydd y swyddogaethau cyngori (ymgynghorai statudol) hyn yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd.

Pan fydd y corff yn rheoleiddio sefydliadau neu unigolion eraill ac yn ymgynghorai statudol hefyd, ni fydd buddiannau'n gwrthdaro. Fodd bynnag, ni fydd angen y gofynion ymgynghori (a fyddai'n golygu bod y corff sengl yn ymgynghori gyda'i hun). Y rheswm am hyn yw bod yna ddyletswyddau cyffredinol eraill ar y corff a fydd yn gofyn iddo roi ystyriaeth lawn i faterion fel cadwraeth, bioamrywiaeth, tirwedd, mynediad a nodweddion hanesyddol yn ei benderfyniadau rheoleiddio, yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd a deddfwriaeth arall. Fodd bynnag, pan fo'r gofyniad ymgynghori yn codi o rwymedigaethau'r UE, er enghraifft yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu'r Rheoliadau Cynefinoedd, bydd gofynion ymgynghori'r corff yn weithredol.

Cafwyd cefnogaeth helaeth i'r cynigion i sicrhau tryloywder penderfyniadau drwy gyhoeddi dogfennau penderfyniad. Cydnabyddir yr angen am gymesuredd (er enghraifft, dan amgylchiadau arferol, ni fyddai'n briodol creu dogfen penderfyniad ar gyfer penderfyniad ar gais bychan am danc septig gan berchennog tŷ). Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y trefniant hwn yn cael ei roi ar waith pan fo penderfyniadau'n debygol o fod yn ddadleuol neu y gallent gael effaith sylweddol ar safle sydd â dynodiad dan gyfraith Ewropeaidd a/neu safle Ramsar, naill ai ar ei ben ei hun neu 'mewn cyfuniad' â chynlluniau, prosiectau neu benderfyniadau eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r corff ddatblygu a chyhoeddi cynllun felly, wedi'i gytuno gan Weinidogion Cymru, yn nodi amgylchiadau sy'n gofyn am gyhoeddi dogfennau penderfyniad ffurfiol, waeth a ydynt yn ofynnol ai peidio gan ddeddfwriaeth arall.

**Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer rôl yr ymgynghorai statudol [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 6.3 Cyngori ar ei weithgareddau gweithredol ei hun a'u rheoleiddio

O dan y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (SEA)<sup>9</sup> mae gofyn i Aelod-Wladwriaethau ddynodi cyrff i ymgynghori â hwy pan gynhelir SEA. Y cyrff dynodedig yw'r rhai y mae effeithiau amgylcheddol strategol cynllun neu raglen yn debygol o beri pryder iddynt, oherwydd eu cyfrifoldebau amgylcheddol penodol.

<sup>9</sup> Gyfarwyddeb y Cyngor 2001/42/EC dyddiedig 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd, OJ 2001 L 197, t.30.

Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori gyntaf<sup>10</sup>, rydym yn cynnig y byddai'r corff newydd yn ymgynghorai statudol ("corff ymgynghori") at y diben hwn.

Pan fydd y corff ei hun yn ymgymryd â chynllun neu raglen bydd rhaid iddo gynnal ymgynghoriad statudol yn fewnol mewn modd sy'n gyson â'r dyfarniad diweddar yn achos *Seaport Investments*<sup>11</sup>. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r swyddogaethau gweithredol a rheoleiddio/cynghori fod yn strwythurau ar wahân yn y busnes.

O ran yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid gwneud trefniadau tebyg i'r rhai a gynigir uchod gyda strwythurau gweithredol ar wahân o fewn y busnes.

Byddwn felly yn sicrhau bod y sefydliad yn trefnu ei hun mewn modd sy'n sicrhau y bydd y broses o wneud penderfyniadau rheoleiddio a rhoi cyngor statudol yn cael ei gwahanu oddi wrth y gwaith o gyflawni'r gweithgarwch a reoleiddir pan fydd yn rheoleiddio ei weithgareddau ei hun, yn paratoi SEA, EIA neu HRA. Yn achos SEA, mae'n fwriad hefyd dynodi Llywodraeth Cymru fel corff ymgynghori SEA mewn perthynas â chynlluniau neu raglenni a gynhelir gan y corff ei hun.

Pan fo gan Weinidogion Cymru bwerau 'galw i mewn' mewn perthynas â cheisiadau, byddwn hefyd yn sicrhau bod gofyn i'r corff hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw ganiatâd y mae'n bwriadu ei roi iddo'i hun ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyhoeddi dogfen penderfyniad (gweler adran 6.2), ar y cyfle cyntaf posibl. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu a ydynt am ddefnyddio eu pwerau 'galw i mewn' a phenderfynu ar y drwydded.

I wella tryloywder, mae'n fwriad ei gwneud hi'n ofynnol i'r corff gyhoeddi rhestr ar ei wefan o'r holl drwyddedau cyfreithlon, o unrhyw fath, y mae wedi'u rhoi mewn perthynas â'i weithrediadau ei hun. Byddai hyn yn ychwanegol at unrhyw ofynion cofrestru cyhoeddus statudol eraill.

**Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â'r cynigion i wahanu'n fewnol y prosesau o wneud penderfyniadau, gwella tryloywder a sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael cyfle i 'alw i mewn' faterion arwyddocaol [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

<sup>10</sup> "Adnoddau Naturiol Cymru, y Trefniadau a Gynigir ar gyfer Sefydlu a Chyfarwyddo Corff Newydd i Reoli Adnoddau Naturiol Cymru", Adran 6.6.2.

<sup>11</sup> Seaport (NI) Ltd, Cyngor Dosbarth Magherafelt ac Eraill v Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (achos Llys Cyfiawnder Ewrop 474/10)

## **6.4 Trwyddedu – materion penodol ynglŷn â'r gyfundrefn**

### **6.4.1 Y Gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)**

Bydd yr holl drwyddedau EPR cyfredol yn cael eu cadw gyda'u hamodau presennol a bydd y corff newydd yn gyfrifol am reoleiddio'r rhain yn cynnwys trwyddedau rheolau safonol.

#### **Trwyddedau rheolau safonol**

O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol mae'n bosibl ymgeisio am 'drwydded safonol' i rai gweithgareddau sy'n cael llai o effaith. Yn yr achosion hyn, mae'r ymgeisydd yn gwneud cais am drwydded gyda chyfres o amodau wedi'u pennu ymlaen llaw. Mae yna dros 50 o gyfresi o amodau o'r fath ac mae'r trwyddedau hyn ar gael ar gyfer gweithgareddau risg isel penodol yn unig lle mae'r cais yn cydymffurfio â meini prawf a bennwyd ymlaen llaw.

Caiff y rhain eu pennu a'u cyhoeddi'n ganolog gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae newid i'r rheolau safonol cyhoeddedig yn diweddarau'r trwyddedau sydd eisoes mewn grym yn awtomatig.

Rydym yn cynnig mai'r corff sengl hwn fydd yr awdurdod llunio rheolau ar gyfer Cymru. Trwy wneud hyn, gellir pennu cyfresi gwahanol o reolau safonol ar gyfer trwyddedau Cymru yn y dyfodol, er yn ymarferol, byddem yn disgwyl cryn dipyn o gysondeb rhwng Cymru a Lloegr o hyd.

Bydd yr amodau trwydded safonol cyfredol ar gyfer safleoedd yng Nghymru yn parhau i fod yn berthnasol i drwyddedau a ganiatawyd neu sy'n cael eu hystyried fel rhai a ganiatawyd gan y corff newydd drwy'r ail orchymyn. Yn unol â hynny, fel yr awdurdod gwneud rheolau, byddai'r corff newydd yn gallu newid amodau trwydded safonol mewn perthynas â safleoedd yng Nghymru.

#### **Trwyddedau offer symudol a'r defnydd ohonynt**

Yn achos offer symudol o dan EPR, mae'r drwydded yn nodi, i bob pwrpas, fod y gweithredwr yn addas a phriodol a chymwys i gyflawni'r gwaith a ganiateir. Dim ond unwaith y dylid cynnal y gwiriadau hyn, ar sail Cymru a Lloegr. Bydd ymgeiswyr yn gwneud cais i'r corff yn y wlad lle mae eu prif safle busnes wedi'i leoli. Y corff y gwneir y cais iddo fydd yn penderfynu ar geisiadau o'r tu allan i Gymru a Lloegr.

Mae trwyddedau offer symudol hefyd yn gofyn am ffurflen ddefnyddio y mae'n rhaid ei chymeradwyo er mwyn gallu gweithredu offer symudol. Mae'r ffurflenni'n ymwneud â safle penodol fel rheol (h.y. bydd yr offer symudol yn cael ei ddefnyddio mewn lleoliad penodol). Mae'n rhaid i'r ymgeisydd feddu ar drwydded cyn y gellir cymeradwyo'r ffurflen ddefnyddio. Bydd atebolrwydd am gyhoeddi a reoleiddio ffurflenni defnyddio'n dilyn yr egwyddorion a nodwyd yn adrann 6.1 uchod (h.y. y corff sy'n cymeradwyo'r ffurflen fydd y corff sy'n gyfrifol am ardal lleoliad yr offer symudol fel rheol).

## 6.4.2 Cludwyr a broceriaid

Bydd egwyddorion tebyg i drwyddedau offer symudol yn berthnasol wrth gofrestru cludwyr a broceriaid a bydd y cofrestrriad gyda'r naill gorff neu'r llall yn ddilys i Gymru a Lloegr.

Fel yn achos offer symudol, bydd ymgeiswyr yn gwneud cais i'r corff lle mae eu prif fusnes wedi'i leoli. Y corff sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r prif leoliad gweithredu wedi'i leoli fydd yn penderfynu ar geisiadau o'r tu allan i Gymru a Lloegr.

Ein cynlluniau presennol ar gyfer cludwyr a broceriaid yw i Asiantaeth yr Amgylchedd ddarparu'r gwasanaeth cofrestru ar gyfer y ddau gorff, am gyfnod trosiannol o leiaf. Byddai'r trefniadau trosiannol hyn yn cael eu llunio o dan y pwerau yn adran 27 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Byddai'n rhaid cytuno'n ffurfiol ar y dull hwn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

## 6.4.3 Trwyddedau Pysgodfeydd

### Trwyddedau pysgota â gwialen

Ar hyn o bryd, dim ond un drwydded y mae'n rhaid i gwsmeriaid ei phrynu, ac mae honno'n rhoi caniatâd iddynt bysgota yng Nghymru a Lloegr. Bwriedir parhau â'r trefniant hwn, gan ei fod yn ymarferol. Bydd trwyddedau pysgota â gwialen a thrwyddedau mordwyo'n parhau i gael eu rhoi fel rhan o gontract cyfredol Post Office Counters Ltd am y ddwy flynedd weithredu gyntaf, tan ddiwedd 2014, pan ddaw'r contract i ben. Ar ôl i'r swyddogaethau gael eu trosglwyddo i'r corff newydd yng Nghymru, bydd holl drwyddedau pysgota â gwialen Cymru a Lloegr yn cael eu dosbarthu gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, a'r corff newydd yng Nghymru. Bydd y ddau gorff yn cytuno ar sut i ddyrannu'r incwm a ddaw o drwyddedau pysgota â gwialen.

Bydd trefniadau y tu hwnt i 2014 yn destun trafodaeth bellach rhwng y corff newydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

### Trwyddedau pysgodfeydd eraill

O dan ddeddfwriaeth pysgodfeydd eraill, fel gorchmynion pysgodfeydd rheoledig sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, bydd yr un dull 'cyfansawdd' yn cael ei ddefnyddio fel arfer. Mae hyn yn golygu y bydd pob corff yn gyfrifol am ei awdurdodaeth ei hun, gyda'r ddau gorff yn cyhoeddi gorchmynion neu ganiatadau, pob un yn gweithredu yn ôl ei awdurdodaeth ei hun. Mae hyn yn cyd-fynd â'r strwythur datganoledig presennol yng Nghymru.

**Cwestiwn 7. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer trwyddedu? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 6.5 Codi tâl am drwyddedau

Ar hyn o bryd, dim ond Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n codi tâl am drwyddedau a chofrestriadau (sef y mwyafrif llethol o drwyddedau). Nid yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru na Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn codi tâl am drwyddedau ar hyn o bryd.

Nid Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yw'r dull mwyaf priodol o gyflwyno newidiadau hollol newydd. Bydd hyn yn cael ei ystyried eto fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Bil yr Amgylchedd ac ymgynghori arno.

Bydd trefniadau trosiannol yn cael eu cynnwys fel bod y corff newydd yn gallu parhau i godi tâl ar sail cynlluniau codi tâl cyfredol Asiantaeth yr Amgylchedd (neu unrhyw rai a gymeradwyir cyn i'r corff newydd ddechrau ar ei waith). Y bwriad yw bod holl gynlluniau codi tâl Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n weithredol ar 1 Ebrill 2013 yn parhau am oes y cynllun codi tâl cymeradwy cyfredol. Ar ôl i'r cynlluniau cyfredol ddod i ben, bydd y corff ei hun yn paratoi cynlluniau i Gymru, a ddylai gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn ein barn ni. Bydd trwyddedau offer symudol, cludwyr a broceriaid a physgota â gwialen yn cyd-fynd yn llawn â chynlluniau Asiantaeth yr Amgylchedd o hyd.

**Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno â'r cynigion hyn ar gyfer codi tâl? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 6.6 Cofrestri cyhoeddus

Mae yna amrywiaeth o ofynion yn ymwneud â chofrestri cyhoeddus yn cael eu gosod ar y cyrff, yn enwedig yn achos Asiantaeth yr Amgylchedd a'r gofyniad i gyhoeddi dogfennau penodol sy'n ymwneud â cheisiadau am drwyddedau a chaniatadau. Bydd y dyletswyddau hyn yn trosglwyddo i'r corff newydd mewn perthynas â'i atebolrwydd yng Nghymru.

Bydd darpariaethau cyfreithiol yn caniatáu cofrestri ar y cyd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd (gyda phob corff yn gyfrifol am ei ddata ei hun o fewn y gofrestr) neu'n caniatáu i'r corff newydd greu cofrestri ar gyfer Cymru yn unig. Bydd y trefniadau a ddefnyddir yn cael eu penderfynu fesul achos, drwy gytundeb â'r Asiantaeth.

**Cwestiwn 9. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer cofrestri cyhoeddus? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nac ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 6.7 Arolygu, ymchwilio, gorfodi ac erlyn

### 6.7.1 Egwyddorion cyffredinol

Rydym yn cynnig y bydd arolygiadau, gwaith gorfodi ac erlyniadau'n dilyn daearyddiaeth – h.y. bydd arolygiadau ar safleoedd yng Nghymru'n cael eu cynnal gan y corff newydd ac arolygiadau ar safleoedd yn Lloegr yn cael eu cynnal gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Pan fo gweithgaredd yn effeithio ar leoliadau o bobtu'r ffin, neu fod troseddwr yn croesi'r ffin, bydd swyddogion â gwarant priodol yn gallu ymchwilio neu weithredu ar draws y ffin<sup>12</sup>.

Bydd erlyniadau a chamau gorfodi eraill yn cael eu cynnal yn unol â lleoliad y drosedd.

### 6.7.2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gorff rhestredig o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Mae hyn yn galluogi'r Asiantaeth i gynnal gwaith goruchwylio penodol ar droseddau amgylcheddol, fel troseddau gwastraff. Y bwriad yw darparu pwerau cyfwerth i'r corff newydd, er mwyn sicrhau y gellir parhau i orfodi'r rheoliadau amgylcheddol yn effeithiol. Cynigir, felly, ychwanegu'r corff newydd i Ran 1 Atodlen 1 Deddf 2000 (h.y. y rhestr o awdurdodau perthnasol at ddibenion adrannau 28 a 29).

**Cwestiwn 10. A ydych yn cytuno y dylai'r corff newydd fod yn gorff rhestredig o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2000? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

### 6.7.3 Sanctsiynau sifil

Cyflwynwyd sanctsiynau sifil gan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008.

Mae yna chwe math o sanctsiynau sifil:

- **Hysbysiad cydymffurfio** – hysbysiad ysgrifenedig gan reoleiddiwr sy'n nodi'r camau gweithredu sy'n rhaid eu cymryd i gydymffurfio â'r gyfraith, neu i gydymffurfio drachefn, o fewn cyfnod penodedig.
- **Hysbysiad adfer** - hysbysiad ysgrifenedig gan reoleiddiwr sy'n nodi'r camau i'w cymryd, o fewn cyfnod penodedig, er mwyn adfer y niwed a achoswyd trwy beidio â chydymffurfio, cyn belled â phosibl.
- **Cosb ariannol benodedig** – dirwy isel, wedi'i phennu gan ddeddfwriaeth, y gall y rheoleiddiwr ei gosod am fân-drosedd benodol.
- **Ymgymeriad gorfodi** - cynnig, wedi'i dderbyn yn ffurfiol gan y rheoleiddiwr, i gymryd camau a fyddai'n gwneud iawn am beidio â chydymffurfio a'i effeithiau.

<sup>12</sup> Bydd y corff arall yn cael gwybod am gamau gweithredu o'r fath cyn gynted â phosibl, a bydd trefniadau lleol yn cael eu gwneud ynglŷn ag ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

- **Cosb ariannol newidiol** - cosb ariannol gymesur, y gall y rheoleiddiwr ei gosod am drosedd fwy difrifol.
- **Hysbysiad stop** – hysbysiad ysgrifenedig sy'n gofyn am atal gweithgaredd yn syth pan fydd yn achosi niwed difrifol neu fod yna risg sylweddol y gallai achosi niwed difrifol.

Rhodddwyd pwerau i Asiantaeth yr Amgylchedd ddefnyddio sancsiynau sifil yng Nghymru ar 15 Gorffennaf 2010. Yng Nghymru, mae sancsiynau sifil penodedig ar gael am droseddau y cyfeirir atynt yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
- Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010.
- Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010.

Ers mis Ebrill 2011 hefyd, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd y pŵer i osod cosbau ariannol cyfyngedig o dan adran 15 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Mae sancsiynau sifil yn ddull gwerthfawr o greu ymateb cymesur ac effeithiol i ddiwyddiadau amgylcheddol. O ganlyniad, mae'n fwriad i'r corff newydd gael y pwerau hyn.

Fodd bynnag, bydd angen i'r corff newydd ddefnyddio'r pŵer yn unol ag egwyddorion gwell rheoleiddio, sef bod yn rhaid defnyddio'r pŵer mewn ffordd gymesur, dryloyw, gyson, atebol ac wedi'i thargedu. Mae'n rhaid i reoleiddwyr sy'n cael y pŵer i osod sancsiynau sifil gyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio'r sancsiynau a diwygio'r canllawiau lle'n briodol. Ymhellach, mae'n rhaid i'r rheoleiddiwr ystyried y canllawiau neu'r canllawiau diwygiedig wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Dim ond troseddau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd y gellir eu cosbi gyda sancsiynau sifil ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion hyn o'r diwrnod trosglwyddo, bydd disgwyl i'r corff newydd ddilyn polisïau a gweithdrefnau Asiantaeth yr Amgylchedd i ddechrau.

Gellir gweld y rhain trwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<http://www.environment-agency.gov.uk/business/regulation/116844.aspx>

Wrth i'r corff ddatblygu ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun bydd angen iddo ymgynghori a chyhoeddi polisïau a chanllawiau perthnasol. Byddwn yn adolygu unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn parhau i gydymffurfio â'r egwyddorion ac yn parhau i gael eu gweithredu gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Bydd adolygiad o gydymffurfiaeth â'r egwyddorion hyn yn cael ei gomisiynu ar ôl 12 mis cyntaf y corff newydd o weithredu er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu trosglwyddo i'w ddiwylliant.

**Cwestiwn 11. A ydych yn cytuno y dylai'r corff newydd gael pwerau i ddefnyddio sancsiynau sifil? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

## 6.8 Apeliadau

Yr egwyddor gyffredinol gyda'r trefniadau newydd yw bod y corff newydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol (fel caniatáu neu wrthod trwydded) a bod Gweinidogion Cymru'n parhau i fod yn gyfrifol am y broses apelio. Dyma sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth gyfredol. Fodd bynnag, mae ambell ddeddfwriaeth yn darparu i apeliadau yn erbyn penderfyniadau gael eu clywed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

O ran y corff newydd, y sefyllfa rydym ni'n ei ffafrio yw galluogi Gweinidogion Cymru i wrando ar apeliadau mewn perthynas â materion Cymreig. Rydym yn ystyried y ffordd orau o alluogi hyn.

**Cwestiwn 12. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer trefniadau apelio?  
[Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fyddech chi'n ei newid?**



## **7. Monitro a samplu safleoedd ac effeithiau trawsffiniol**

Pan fo angen monitro'n drawsffiniol, bydd y gwaith yn cael ei wneud fel rheol gan y corff newydd ar gyfer pob safle yng Nghymru a chan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Natural England ar gyfer holl safleoedd Lloegr, gyda'r corff monitro'n ailgodi tâl priodol am eu costau.

Er enghraifft, os oes angen monitro safle sydd yn is i lawr yr afon oddi wrth waith trin carthffosiaeth, efallai y bydd angen gwneud gwaith monitro yng Nghymru mewn perthynas â chaniatâd gwaith trin carthffosiaeth a roddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, neu fel arall.

Disgwylir i'r trefniadau hyn gael eu gwneud (fel darpariaeth gwasanaeth), i ddata gael ei rannu, ac i gostau gael eu pennu drwy gytundeb ffurfiol rhwng y cyrff ar adeg rhoi'r drwydded neu wrth adolygu'r drwydded. Byddai cytundebau o'r fath yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau a ddarparwyd gan adran 28 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 ac (yn achos Asiantaeth yr Amgylchedd) maent yn debygol o ffurfioli cytundebau rhyngranbarthol sy'n bodoli eisoes.

[Pe byddai'r ddau gorff yn anghytuno llawer, gallai'r trefniadau hyn gael eu hategu gan Gyfarwyddyd Gweinidogol, naill ai gan Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru, gyda chytundeb / ymgynghoriad priodol ond mae anghytundeb o'r fath yn annhebygol iawn o ddigwydd os o gwbl].

**Cwestiwn 13. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer monitro trawsffiniol?  
[Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## **8. Cynlluniau ac adroddiadau statudol**

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yn cyhoeddi amrywiaeth o gynlluniau ac adroddiadau statudol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn rhoi cyngor i Weinidogion (Cymru a Lloegr) ar Gynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder sy'n cael eu llunio gan gwmnïau dŵr.

Mae'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i'n bwriadau ar gyfer y materion hyn fel a ganlyn:

### **8.1 Cynlluniau ac adroddiadau'r corff**

Ar gyfer cynlluniau trawsffiniol, ein bwriad yw gwneud pob corff (h.y. y corff newydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r Comisiwn Coedwigaeth) yn atebol am ei ardal ei hun, o ran cynllunio a chymau gweithredu dilynol fel monitro, adrodd a gwaith gorfodi/gwella.

O ran datblygu a gweithredu cynlluniau rydym yn cynnig y dylai un corff ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu'r cynllun ar ran y ddau ohonynt, trwy gytundeb, gan ddefnyddio trefniadau o dan Adran 28 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Pan fo gofyn i'r cynllun fod yn gynllun sengl, fel cynllun ardal basn afon, y bwriad yw i'r ddau gorff gymeradwyo'r cynllun mewn perthynas â'u hardaloedd nhw.

Er enghraifft, bydd y corff newydd yn gyfrifol am Gynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer ardaloedd basn afon sy'n gyfan gwbl yng Nghymru. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i fod yn gyfrifol am y cynlluniau hyn yn achos ardaloedd basn afon sy'n gyfan gwbl yn Lloegr.

Mewn perthynas â Chynlluniau Rheoli Basn Afon trawsffiniol ar gyfer ardaloedd basn afon sy'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr, mae'n fwriad i'r corff newydd fod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r cynllun ar gyfer y rhan sydd yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i fod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r cynllun ar gyfer y rhan sydd yn Lloegr.

Er mwyn sicrhau cydlyniant ar lefel ardal basn afon, rydym yn cynnig y bydd hi'n ofynnol i'r corff newydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd gyflawni swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â phob ardal basn afon, yn cynnwys ardaloedd trawsffiniol, er mwyn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a chydgyssylltu pob ardal i gyd.

Rydym hefyd yn cynnig gosod rhwymedigaeth gyffredinol ar y corff newydd i gyflawni rhai swyddogaethau perthnasol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Pan fo angen data at ddibenion adrodd statudol y DU, dylai'r corff sengl fod â dyletswydd i'w ddarparu ar gyfer Cymru – naill ai drwy Weinidogion Cymru neu'r adran berthnasol yn y Llywodraeth, neu ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd drwy gytundeb rhwng y partion.

Byddai dyletswydd ar bob corff i ystyried effeithiau trawsffiniol ei holl benderfyniadau ac i gydweithio ar faterion trawsffiniol.

## **8.2 Cynlluniau Sychder a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr Cwmnïau Dŵr**

Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn gofyn i ymgymerwyr dŵr baratoi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Mae hefyd yn nodi nifer o swyddogaethau ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn benodol, mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i ymgymerwr dŵr ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn paratoi cynllun sychder neu reoli adnoddau dŵr. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd gan roi unrhyw gyfarwyddiadau i'r ymgymerwr dŵr ynglŷn â pharatoi cynllun diwygiedig.

Rydym yn cynnig y dylid cadw'r gofyniad i ymgymerwr dŵr ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Hefyd, gan y bydd gan y corff newydd gyfrifoldeb am reoli adnoddau dŵr yng Nghymru, rydym yn cynnig cynnwys y corff newydd fel ymgynghorai pan fo cynlluniau sychder a rheoli adnoddau dŵr yn effeithio ar adnoddau dŵr yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori â'r corff newydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd cyn rhoi cyfarwyddiadau i ymgymerwr dŵr sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Hefyd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r corff newydd cyn rhoi cyfarwyddiadau i ymgymerwr sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr (dim ond mewn perthynas â'r cynlluniau hynny a fydd yn effeithio ar adnoddau dŵr yng Nghymru).

**Cwestiwn 14. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer cynlluniau ac adroddiadau statudol? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 9. Rheoli digwyddiadau

### 9.1 Argyfyngau sifil

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd swyddogaeth bwysig o ran ymateb i argyfyngau, yn arbennig llifogydd, digwyddiadau morol fel Trychineb Olew y Sea Empress, digwyddiadau sy'n cynnwys allyriadau i'r aer fel y tân diweddar yn Fforest-fach a chlwy'r traed a'r genau. O ganlyniad, mae wedi'i rhestru fel ymatebwr categori 1 yn Rhan 1 Atodlen 1 Deddf Argyfyngau Sifil 2004.

Mae'n amlwg y bydd cyfrifoldebau Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd. Y bwriad, felly, yw ychwanegu'r corff newydd at y rhestr o ymatebwyr Categori 1.

### 9.2 Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

O dan Reoliadau COMAH 1999, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r Awdurdod Cymwys ar gyfer gorfodi'r rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys adolygu cynlluniau ymateb i argyfwng a baratowyd gan weithredwyr safleoedd peryglon damweiniau mawr. Mae gan dimau cynllunio at argyfwng awdurdodau lleol gyfrifoldebau hefyd mewn perthynas â'r cynlluniau hyn.

O ran gweithredu, mae'r swyddogaethau hyn yn cyd-fynd â threfniadau cyflawni swyddogaethau trwyddedu ac arolygu safle, a fydd yn rhan o ddyletswyddau'r corff newydd. Y bwriad, felly, yw trosglwyddo cyfrifoldebau Asiantaeth yr Amgylchedd am COMAH yng Nghymru i'r corff newydd.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni rhai swyddogaethau mewn perthynas â'r materion hyn hefyd. Wrth ddatganoli swyddogaeth COMAH o Asiantaeth yr Amgylchedd i'r corff newydd, mae'n gwneud synnwyr trosglwyddo'r swyddogaethau hyn i Weinidogion Cymru. Rydym yn ystyried sut i wneud hyn ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 15. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer Argyfyngau Sifil a COMAH? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 10. Cynlluniau masnachu a chyfrifoldeb cynhyrchwyr

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd swyddogaeth statudol ar sail y DU mewn perthynas â nifer o gynlluniau – h.y. mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â Chymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cofrestriadau Masnachu Allyriadau.
- Gweinyddu'r Ymrwymiad i Leihau Carbon.
- Cynllun Lleihau Allyriadau Cenedlaethol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu gwasanaeth ar sail y DU mewn nifer o gyfundrefnau eraill hefyd er nad oes ganddi'r un ddyletswydd statudol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynlluniau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr – Batris, Cyfarwyddeb WEEE a Rheoliadau Deunydd Pacio.
- Cydymffurfiaeth gemegol – Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a chyfyngu ar Gemegion (REACH) a Llygryddion Organig Parhaus (POPS).
- Proses Llif Gwaith Awtomatig y Cynllun Masnachu Allyriadau (ETSWAP).
- Flycapture (y gronfa ddata ar dipio anghyfreithlon).
- Morgludiant a Gwasanaeth Gwybodaeth am Lwythi Trawsffiniol.

Rydym yn bwriadu parhau i weithredu agweddau gweinyddol y trefniadau hyn yn cynnwys cofrestru ac adrodd ar sail y DU gyfan. Y corff sengl fydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth a rheoleiddio ar safle, yn unol â'r trefniadau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn bwriadu dilyn yr egwyddor hon hefyd gyda chynlluniau lle mae gan y Comisiwn Coedwigaeth swyddogaeth gyfwerth.

**Cwestiwn 16. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer trefniadau sy'n berthnasol i'r DU gyfan? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**

## 11. Trefniadau trosiannol

Bydd yr ail orchymyn yn diffinio amrywiaeth eang o drefniadau trosiannol a fydd yn sicrhau y bydd penderfyniadau'r cyrff presennol yn parhau i gael effaith ac y bydd trwyddedau, cytundebau, contractau ac ati yn parhau fel petai'r corff sengl oedd y corff gwreiddiol. Byddai'r rhain yn cynnwys:

- Penderfyniadau, dynodiadau, cytundebau (yn cynnwys contractau neu gynlluniau grant) neu offerynnau sy'n effeithio ar Gymru.
- Unrhyw gyngor statudol sy'n cael ei ddarparu i'r tri chorff neu ganddynt (gweler rôl yr ymgynghorai statudol).
- Unrhyw reoliadau neu is-ddeddfau a wneir gan unrhyw un o'r cyrff sy'n berthnasol yng Nghymru.
- Unrhyw drwydded, caniatâd, cydsyniad, cymeradwyaeth, cofrestriad, awdurdodiad, eithriad, goddefeb neu lacio amodau neu reolau a ganiateir gan y cyrff mewn perthynas â gweithgareddau yng Nghymru.
- Polisiâu neu ffurflenni cyfredol lle gallant gael effaith statudol neu gyfreithiol yng Nghymru (ond nid polisiâu neu ffurflenni sy'n gyfyngedig i Gymru o anghenraid), ONI BAI eu bod yn cael eu disodli gan bolisi neu ffurflen a gyhoeddir gan y corff newydd (naill ai cyn neu ar ôl breinio).
- Unrhyw hysbysiad, cyfarwyddyd neu dystysgrif a roddir gan y tri chorff neu iddynt, sy'n effeithio ar Gymru.
- Unrhyw gais, cynnig neu wrthwynebiad a wneir gan y tri chorff neu iddynt, sy'n effeithio ar Gymru.
- Unrhyw amod neu ofyniad sydd wedi'i osod gan y tri chorff neu arnynt.
- Unrhyw ffi neu dâl a delir gan y tri chorff neu iddynt.
- Unrhyw apêl a ganiateir gan y tri chorff neu o blaid neu yn erbyn y tri chorff.
- Unrhyw achos a gyflwynir gan neu yn erbyn y tri chorff, yn cynnwys sancsiynau sifil.
- Unrhyw gynllun codi tâl gan Asiantaeth yr Amgylchedd am y cyfnod cymeradwy.
- Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda phartion eraill.
- Rhannau perthnasol cofrestri cyhoeddus (gweler yr adran ar gofrestri cyhoeddus).

Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys swyddogaethau a gyflawnir gan y corff lle mae'r cyrff presennol wedi eu henwi neu eu henwebu i gyflawni swyddogaethau drwy drefniadau y tu allan i'r brif ddeddfwriaeth. Bydd trefniadau trosiannol yn cwmpasu'r materion hynny sy'n cael eu cadarnhau drwy ddarpariaethau cyffredinol yn y gorchmynion, yn ogystal â'r rhai yr ymdrinnir â hwy drwy drosglwyddiadau syml.

Bydd y darpariaethau'n cynnwys unrhyw swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru (neu Loegr) neu ganddynt.

**Cwestiwn 17. A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer trefniadau trosiannol? [Ydw, I raddau helaeth, Nac ydw]**

**Os nad ydych, beth fydddech chi'n ei newid?**





**Dyletswyddau amgylcheddol a hamdden cyffredinol**

Subject to subsection (1) above, it shall be the duty of each of the Ministers and of the Agency, in formulating or considering any proposals relating to any functions of the Agency—

- (a) to have regard to the desirability of preserving for the public any freedom of access to areas of woodland, mountains, moor, heath, down, cliff or foreshore and other places of natural beauty;
- (b) to have regard to the desirability of maintaining the availability to the public of any facility for visiting or inspecting any building, site or object of archaeological, architectural, engineering or historic interest; and
- (c) to take into account any effect which the proposals would have on any such freedom of access or on the availability of any such facility.

Subject to obtaining the consent of any navigation authority, harbour authority or conservancy authority before doing anything which causes obstruction of, or other interference with, navigation which is subject to the control of that authority, it shall be the duty of the Agency to take such steps as are—

- (a) reasonably practicable, and
- (b) consistent with the purposes of the enactments relating to the functions of the Agency, for securing, so long as the Agency has rights to the use of water or land associated with water, that those rights are exercised so as to ensure that the water or land is made available for recreational purposes and is so made available in the best manner.

Adran 7(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

Adran 7(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

**Tabl 2: Prif ddyletswyddau Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Prif ddyletswydd	Deddfwriaeth berthnasol
<p><b>Swyddogaethau cefn gwlad</b></p> <p>The conservation and enhancement of natural beauty in Wales and of the natural beauty and amenity of the countryside in Wales, both in the areas designated under the National Parks and Access to the Countryside Act 1949 as National Parks or [under the Countryside and Rights of Way Act 2000 ]<sup>1</sup> as areas of outstanding natural beauty and elsewhere. (Conservation of the natural beauty of the countryside includes the conservation of its flora, fauna and geological and physiographical features.)</p> <p>Encouraging the provision or improvement, for persons resorting to the countryside in Wales, of facilities for the enjoyment thereof and for the enjoyment of the opportunities for open-air recreation and the study of nature afforded thereby;</p> <p>Having regard to the social and economic interests of rural areas in Wales.</p> <p>The Council shall keep under review all matters relating to the provision and improvement of facilities for the enjoyment of the countryside, the conservation and enhancement of the natural beauty and amenity of the countryside, and the need to secure public access to the countryside for the purposes of open-air recreation, and shall consult with such local planning authorities and other bodies as appear to the Council] to have an interest in those matters.</p>	<p>Adran 130 (2)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>Adran 130 (2)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>Adran 2(2) o Ddeddf Cefn Gwlad 1968</p>

<p><b>Gwarchod Natur</b></p> <p>Conservation and fostering the understanding of nature conservation, the Council shall have the functions conferred on them by this Part and Part 2 of the Natural Environment and Rural Communities Act 2006.</p> <p>In discharging their nature conservation functions, to take appropriate account of actual or possible ecological changes.</p>	<p>Adran 131 (1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006</p> <p>Adran 131 (2) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p>
<p><b>Swyddogaethau Cyffredinol</b></p> <p>The establishment, maintenance and management of nature reserves in their area;</p> <p>The provision of advice for the Secretary of State or any other Minister on the development and implementation of policies for or affecting nature conservation in their area.</p> <p>The provision of advice and the dissemination of knowledge to any persons about nature conservation in their area or about matters arising from the discharge of their functions under this section</p> <p>The commissioning or support (whether by financial means or otherwise) of research which in their opinion is relevant to any of their functions under this section or section 134</p> <p>The power to accept any gift or contribution made to them for the purposes of any of the general functions and, subject to the terms of the gift or contribution, to apply it to those purposes;</p> <p>The power to initiate and carry out such research directly related to its general functions as it is appropriate that they</p>	<p>Adran 132 (1)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (o fewn ystyr adran 15 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad I Gefn Gwlad 1949)</p> <p>Adran 132 (1)(c) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>Adran 132 (1)(d) ac adran 134 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>Adran 132 (1)(e) ac adran 134 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>Adran 132 (2)(a) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p> <p>Adran 132 (2)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p>

<p>should carry out instead of commissioning or supporting other persons.</p> <p>To do all such other things as are incidental or conducive to those functions including (without prejudice to the generality of this provision) making charges and holding land or any interest in or right over land.</p>	<p>Adran 132 (2)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990</p>
---	--

**Tabl 3: Prif ddyletswyddau'r Comisiwn Coedwigaeth**

<b>Prif ddyletswydd</b>	<b>Deddfwriaeth berthnasol</b>
<p><b>Dyletswydd gyffredinol</b></p> <p>Promoting the interests of forestry, the development of afforestation and the production and supply of timber and other forest products.</p> <p>Promoting the establishment and maintenance of adequate reserves of growing trees.</p> <p>In discharging their functions under the Forestry Acts 1967 to 1979 the Commissioners must, so far as may be consistent with the proper discharge of those functions, endeavour to achieve a reasonable balance between:</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) the development of afforestation, the management of forests and the production and supply of timber, and</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) the conservation and enhancement of natural beauty and the conservation of flora, fauna and geological or physiographical features of special interest.</p> <p><b>Rheoli tir coedwigaeth</b></p> <p>Manage, plant and otherwise use, for the purpose of the exercise of their functions under this Act, any land placed at their disposal by the Minister</p> <p>Undertake the management or supervision, upon such terms and subject to such conditions as may be agreed upon, or give assistance or advice in relation to the</p>	<p>Adran 1(2) o Ddeddf Coedwigaeth 1967</p> <p>Adran 1(3) o Ddeddf Coedwigaeth 1967</p> <p>Adran 1(3A) o Ddeddf Coedwigaeth 1967</p> <p>Adran 3(1) o Ddeddf Coedwigaeth 1967</p> <p>Adran 3(2) o Ddeddf Coedwigaeth 1967</p>

<p>planting or management, of any woods or forests belonging to any person, including woods and forests under the management of the Crown Estate Commissioners or under the control of a government department, or belonging to a local authority.</p> <p>Purchase or otherwise acquire standing timber, and sell or otherwise dispose of any timber belonging to them or, subject to such terms as may be mutually agreed, to a private owner, and generally promote the supply, sale, utilization and conversion of timber.</p> <p>Establish and carry on, or aid in the establishment and carrying on, of woodland industries.</p>	<p>Adran 3(3)(a) o Ddeddf Coedwigaeth 1967</p> <p>Adran 3(3)(b) o Ddeddf Coedwigaeth 1967</p>
---	---